Y Bridiau o Hyrddod a Ddefnyddir yng Nghymru

Breed of Rams Used in Wales

Y Bridiau o Hyrddod a Ddefnyddir yng Nghymru

Breed of Rams used in Wales



Mae niferoedd tebyg o hyrddod Texel a hyrddod Mynydd Cymreig. Defnyddiwyd y bridiau i baru ag ychydig dros 1.1 miliwn o famogiaid, sef tua 23% o boblogaeth y mamogiaid yng Nghymru ym mhob achos. Yn nesaf o ran poblogrwydd oedd y Suffolk, a ddefnyddiwyd i baru â bron i chwarter miliwn o famogiaid. O ran hyrddod mewn perthynas â bridio ar ffermydd Cymru, y bridiau Hyrddod terfynol oedd amlycaf o ddigon. Roedd hyrddod Texel, Suffolk a Charollais gyda'i gilydd yn gyfrifol am baru â 2.2 miliwn o famogiaid, sef tua 44% o'r holl famogiaid yng Nghymru. O blith y bridiau a gadwyd i gynhyrchu mamogiaid bridio, yr hyrddod a ddefnyddiwyd fwyaf oedd rhai Mynydd Cymreig ac Wyneblas Caerlŷr.

There are similar numbers of Texel and Welsh Mountain rams. Both breeds were mated to just over 1.1 million ewes, some 23% of the Welsh ewe population in each case. The Suffolk was the next most widely used sire, being mated to almost a quarter of a million ewes. The Terminal Sire breeds dominated the ram side of breeding on Welsh farms. Texel, Suffolk and Charollais together were responsible for mating 2.2 million ewes, about 44% of all ewes in Wales. Of the breeds kept to produce breeding ewes, the Welsh Mountain and Bluefaced Leicester ram populations were the most widely used.

Ŵyn a werthwyd neu a gadwyd yn ôl teip

Lambs Sold or retained by type

Ŵyn a werthwyd neu a gadwyd yn ôl teip (000)

Lambs sold or retained by type (000)



Mae ŵyn o ffermydd Cymru'n cael eu gwerthu at sawl pwrpas. Mae'r siart cylch uchod yn crynhoi nifer yr ŵyn a werthwyd yn ôl y math o werthiant. Gwerthwyd cyfanswm o 5.5 miliwn o ŵyn yn 2003. Cafodd y rhan fwyaf o'r rhain eu gwerthu i'w lladd yn syth o'r fferm.
Gwerthwyd cyfran fach o ŵyn yn ŵyn stôr (10%) ond cafodd y mwyafrif o weddill yr ŵyn eu gwerthu ar gyfer bridio (20%)

Lambs are sold from Welsh farms for a numbers of different purposes. The pie chart above summarises the numbers of lambs sold by type of sale. In total, 5.5 million lambs were sold in 2003. The majority of these were sold as slaughter lambs directly from the farm.
A small proportion of lambs were sold as store lambs (10%) but the majority of the remainder of lambs were sold as breeding animals (19%).

Am fwy o wybodaeth
For further information

Cysylltwch â Hybu Cig Cymru ar
Ffôn: 01970 625050 Ffacs: 01970 615148

Please contact Meat Promotion Wales on
Tel: 01970 625050 Fax: 01970 615148

www.hccmpw.org.uk
enquiries@hccmpw.org.uk

HYBU CIG CYMRU
MEAT PROMOTION WALES



Strwythur Bridio Diwydiant Defaid Cymru 2004

The Breeding Structure of the Welsh Sheep Industry 2004

Hybu Cig Cymru
Meat Promotion Wales

Corff sy'n cael ei arwain gan y diwydiant yw Hybu Cig Cymru ac yn gyfrifol am ddatblygu, hyrwyddo a marchnata cig coch yng Nghymru ac am ddatblygu'r diwydiant cig coch yng Nghymru. Ei genhadaeth yw datblygu marchnadoedd proffidiol a chynaladwy ar gyfer cig coch yng Nghymru a chig coch Cymreig y tu allan i Gymru er budd yr holl randdeiliaid yn y gadwyn gyflenwi.

Hybu Cig Cymru/Meat Promotion Wales (HCC) is the industry led organisation responsible for the development, promotion and marketing of red meat in and from Wales and the development of the Welsh red meat industry. Its mission is to develop profitable and sustainable markets for red meat in Wales and Welsh red meat outside Wales for the benefit of all stakeholders in the supply chain.

Tueddiadau yn niferoedd y mamogiaid dros y 30 mlynedd diwethaf
Trends in ewe numbers over the last 30 years

Cynyddodd nifer y defaid o ddechrau'r 1970au tan ganol y 1990au, gan gyrraedd brig o 4.86 miliwn o famogiaid yn 1996. Cafodd y cynnydd cyffredinol hwn ei adlewyrchu yn y tri sector, fel y gwelir yn y graff isod. Oddi ar hynny cafwyd gostyngiad o bron i hanner miliwn yn nifer y mamogiaid. Yn naturiol, y defaid mynydd sydd fwyaf niferus yn y diwydiant defaid, gyda bron i 60% o'r mamogiaid yn y sector hwn. Mae'r 40% o famogiaid sy'n weddill wedi'u rhannu bron yn gyfartal rhwng y sectorau tir uchel a thir isel.

Tueddiadau yn niferoedd y mamogiaid dros y 30 mlynedd diwethaf

Trends in ewe numbers by sector over the last 30 years



Sheep numbers rose from the early 1970s to the mid 1990s, reaching a peak of 4.86 million ewes in 1996. This overall rise was reflected in the three sectors also shown in the graph above. Since then ewe numbers have declined by about half a million. Not surprisingly, hill sheep numbers dominate the sheep industry with nearly 60% of ewes in this sector. The remaining 40% of ewes are split almost evenly between the upland and lowland sectors.

Y prif fridiau pur o famogiaid yng Nghymru
The main pure ewe breeds in Wales

Y brid Mynydd Cymreig sydd fwyaf niferus yn y sector purlinach gyda 1.5 miliwn o famogiaid yn paru yn 2003. Mae'r ddau frid mynydd pwysig arall yng Nghymru hwythau'n cael sylw yn y siart cylch isod. Mae'r Beulah a'r Penfrith Caled yn cynrychioli 10 a 6%, yn y drefn honno, o'r holl famogiaid yng Nghymru. Yn ddiddorol, y brid pur pedwerydd fwyaf niferus yng Nghymru oedd y Texel, gyda 102,000 o famogiaid yn ôl amcangyfrif. Mae'r rhan fwyaf o'r bridiau eraill a ddangosir yn fridiau mynydd Cymreig eraill. Fodd bynnag, mae'r Suffolk a'r Llŷn hwythau'n chwarae rhan. Yng Nghymru mae bridiau pur o famogiaid yn cynrychioli 61% o'r ddiadell genedlaethol.

The Welsh Mountain breed dominated the purebred sector with 1.5 million ewes mated in 2003. The two other major hill breeds in Wales are also highlighted in the pie chart below. The Beulah and Hardy Speckled Face represent 10 and 6% of all ewes in Wales respectively. Interestingly, the fourth largest pure breed in Wales was the Texel, with an estimated 102,000 ewes. The majority of the remaining breeds shown are other Welsh hill breeds although the Suffolk and the Lleyn also feature. In Wales, pure ewe breeds accounted for 61% of the national flock.

Strwythur y bridiau pur o famogiaid yng Nghymru (61% o'r holl famogiaid bridio)

Structure of the pure ewe breeds in Wales (61% of all breeding ewes)



Niferoedd y Croesfridiau
Crossbred numbers

Yng Nghymru, mamogiaid croesfrid yw 39% o'r ddiadell fridio genedlaethol. Mae'r mamogiaid hyn yn perthyn i dri chategori:

- Teipiau croesfrid cydnabyddedig h.y. Miwl Cymreig a Hanner Brid Cymreig (Croesiadau Hirwlanog).
- Croesiadau fel rhan o strwythur croesi rheolaidd (Croesiadau bridiau mynydd).
- Amryw gyfuniadau o fridiau sydd i'w cael ar ffermydd (Croesiadau Terfynol).

Yn 2003, y Miwl Cymreig oedd y teip croesfrid mwyaf niferus yng Nghymru gyda dros hanner miliwn o famogiaid yn paru (sef 11% o'r ddiadell genedlaethol). Nid oedd unrhyw deip croesfrid arall â chyfran o fwy na 2% o'r ddiadell genedlaethol, ac mae hyn yn adlewyrchu pwysigrwydd y Miwl Cymreig yng Nghymru.

In Wales, crossbred ewes account for 39% of the national breeding flock. These ewes fall into three categories,

- Recognised crossbred types i.e. Welsh mule and Welsh Halfbred (Long wool crosses).
- Crosses as part of a regular crossing structure (Hill breed crosses) eg Hill x Hill, Suffolk x Hill, Texel x Hill, Lleyn x Hill.
- Various combinations of breeds found on farms (Terminal Crosses).

In 2003, the Welsh Mule was the most numerous crossbred type in Wales with over half a million ewes mated (accounting for 11% of the national flock). No other crossbred type accounted for more than 2% of the national flock, and this reflects the dominance of the Welsh Mule in Wales.

Strwythur y mamogiaid bridio croesfrid yng Nghymru (39% o'r holl famogiaid bridio)

Structure of the crossbred breeding ewes in Wales (39% of all breeding ewes)